

Agenda – Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd drwy Zoom Rhys Morgan
Dyddiad: Dydd Iau, 26 Tachwedd 2020 Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.30 0300 200 6565
SeneddDGCh@senedd.cymru

Cofrestru cyn y cyfarfod (09:00 – 09:30)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2 Ymchwiliad ynghylch pwy sy'n cael eu coffáu mewn manau cyhoeddus

(09.30–10.15)

(Tudalennau 1 – 10)

Yr Athro Bill Jones

Yr Athro Merfyn Jones

Yr Athro Deian Hopkin

Egwyl

(10.15 – 10.30)

3 Ymchwiliad ynghylch pwy sy'n cael eu coffáu mewn manau cyhoeddus

(10.30 – 11:15)

Yr Athro Martin Johnes, Prifysgol Abertawe

Dr Simon John, Prifysgol Abertawe

Abu-Bakr Madden Al-Shabazz



Egwyl

(11.15 – 11.25)

4 Ymchwiliad ynghylch pwy sy'n cael eu coffáu mewn manau cyhoeddus

(11.25– 12.00)

Richard Suggett, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

James January-McCann, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

5 Papurau i'w nodi

5.1 Gohebiaeth gyda Llywodraeth Cymru ynghylch dysgu Cymraeg

(Tudalennau 11 – 15)

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

7 Ôl-drafodaeth breifat

(12.00 –12.15)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Kirsty Williams AS
Y Gweinidog Addysg
Llywodraeth Cymru

Dyddiad | Date: 21 Hydref 2020

Pwnc | Subject: **Addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg**

Annwyl Kirsty,

Yn ddiweddar, bu Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn craffu ar Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch ei Adroddiad Blynyddol.

Yn ystod y sesiwn, cododd bryderon ynghylch y ddarpariaeth addysg Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Yn ei farn ef, nid yw'n cael digon o sylw.

“O beth dwi'n ei weld ar hyn o bryd, ac o beth dwi'n ei weld o ran y drafodaeth, does yna ddim llawer o obaith inni gynyddu'r canran o ran rhuglder o fewn y cyfrwng Saesneg”.

Galwodd hefyd am fwy o uchelgais o ran yr hyn a ddisgwylir gan ddisgyblion pan fyddant yn gadael yr ysgol. Dywedodd y Comisiynydd:

'Y gwir amdani ... ydy bod y trwch helaeth o'r bobl ifanc sy'n gadael ein hysgolion Saesneg ni ... yn medru dweud 'bore da' a 'prynhawn da'—dyna beth rydyn ni'n sôn amdano fo. Ac mae hynny'n gywilydd o fewn gwlad sydd yn dweud ei bod hi neu'n mynnu ei bod hi'n ddwyieithog'.

Galwodd am gydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru o faint y dasg o wella'r ffordd y mae iaith yn cael ei haddysgu, a sut y mae'n bwriadu newid y sefyllfa sy'n bodoli ar hyn o bryd. Yn benodol, galwodd am:

- ganllawiau ar gyfer addysg Gymraeg sy'n mynd i'r afael â chyflawni'r continwrm iaith;
- strategaeth glir ar gyfer addysgu'r Gymraeg fel ail iaith; gan gynnwys



- strategaeth ar gyfer cynyddu'r hyfforddiant ar gyfer athrawon sy'n addysgu'r Gymraeg fel ail iaith.

Galwodd hefyd am fwy o werthfawrogiad o'r angen i recriwtio nifer sylweddol o athrawon i gyflawni nodau'r strategaeth Cymraeg 2050. Dywedodd y canlynol:

'Os ydy 'Cymraeg 2050' yn digwydd a bod angen inni gael o leiaf 50 y cant o'r disgyblion yna o fewn y sector Saesneg yn rhugl yn y Gymraeg erbyn iddyn nhw ddod yn 16, mae angen llawer iawn mwy o weithredu na beth rydyn ni'n ei weld ar hyn o bryd'.

A allwch ymateb i alwadau'r Comisiynydd am ganllawiau a strategaeth ar gyfer addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg?

A allwch roi gwybod i ni pa gynlluniau sydd ar waith i recriwtio'r nifer ofynnol o athrawon iaith sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion Cymraeg 2050 ar gyfer disgyblion sy'n cael eu haddysg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg?

Er mwyn llywio gwaith y Pwyllgor, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau hyn erbyn 20 Tachwedd.

Yn gywir,



Helen Mary Jones

Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu





Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

17 Tachwedd 2020

Annwyl Helen Mary,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Hydref 2020.

Cefais gyfarfod cadarnhaol yn ddiweddar gyda Chomisiynydd y Gymraeg i drafod y nodyn briffio a gyhoeddodd ym mis Awst, a'n cynlluniau wrth symud ymlaen.

Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar ein cynlluniau a'n huchelgeisiau ar gyfer cynyddu gweithlu cyfrwng Cymraeg a gallu pob ymarferydd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn ystod y cyfnod digynsail hwn.

Yr wyf yn ymwybodol iawn o'r angen i ddatblygu dull strategol tymor byr, canolig a hirdymor o fynd i'r afael â phrinder athrawon cyfrwng Cymraeg, er mwyn cyflawni targedau Cymraeg 2050. Rydym eisoes yn gweithio ar rai camau gweithredu tymor byr fel y cwrs trosi cynradd – uwchradd. Fodd bynnag, nid oes ateb cyflym ac mae angen inni weithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys ysgolion, i gyd-lunio'r strategaeth, a phrif ffrydio datblygiadau i gefnogi'r sector cyfrwng Cymraeg o fewn system ehangach Addysg Gychwynol Athrawon a datblygu ein pecyn cymorth ar gyfer blynyddoedd cynnar gyrfa athrawon.

Rwyf hefyd yn awyddus i symud y ffocws o osod targedau uniongyrchol i ddefnyddio data a gwybodaeth i lywio amrywiaeth o atebion a all hwyluso cynnydd yn nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg. Gwyddom beth yw targedau cyffredinol Cymraeg 2050 - sy'n seiliedig ar boblogaeth y dysgwyr, ac sy'n dibynnu ar sicrhau bod yr awdurdodau lleol yn bwrw ymlaen â'u Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Ar ben hynny, bellach mae gennym y set gyntaf o ddata o Gyfrifiad Blynyddol Gweithlu Ysgolion (SWAC). Byddwn yn defnyddio'r data hynny a gwybodaeth arall o'r system i gefnogi a hwyluso'r broses o recriwtio athrawon cyfrwng Cymraeg drwy amrywiaeth o raglenni, yn hytrach na gosod targedau ar gyfer partneriaethau Addysg Gychwynol i Athrawon yn unig.

Mae'r gwaith i ddatblygu'r strategaeth hirdymor hon yn cael ei ddatblygu gan fy swyddogion. Rhagwelaf y bydd y gwaith hwnnw'n rhoi eglurder ynghylch rolau partneriaid a rhanddeiliaid allweddol a fydd yn ein helpu i gyflawni ein cynlluniau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae dysgu proffesiynol yn allweddol ar gyfer sut y byddwn yn cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi dros £6m mewn dysgu proffesiynol i gefnogi ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, i addysgu Cymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae swyddogion yn gweithio gyda'r consortia rhanbarthol, darparwyr cynlluniau sabothol a rhanddeiliaid eraill fel y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg i ddatblygu rhaglen gydlynol o ddysgu proffesiynol gydol gyrfa yn y Gymraeg, sy'n seiliedig ar y fframwaith cymwyseddau cenedlaethol. Fel yr amlinellwyd uchod, bydd y data sydd gennym gan SWAC yn galluogi rhanbarthau ac awdurdodau lleol i wella'r broses o gynllunio dysgu proffesiynol er mwyn sicrhau ein bod yn targedu ac yn cefnogi ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

Mae sicrhau y bydd pob dysgwr yn gallu defnyddio'r Gymraeg pan fydd yn gadael yr ysgol yn rhan bwysig o'n diwygiadau addysg parhaus. Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn rhoi fframwaith cadarn i ysgolion, ond heb gyfyngu ar eu hawtonomi proffesiynol. Drwy roi'r hyblygrwydd hwnnw i ysgolion, rydym yn galluogi ymarferwyr i ddefnyddio eu sgiliau proffesiynol ac yn rhoi'r rhyddid iddynt gynllunio cwricwlwm sy'n bodloni anghenion eu dysgwyr penodol yn well.

Mae'r manylion yn y Fframwaith Cwricwlwm i Gymru, ac yn benodol yn y *Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ac Egwyddorion Cynnydd*, yn datgan yn glir beth sy'n bwysig wrth ddarparu addysg eang a chytbwys ac yn nodi disgwyliadau i ddysgwyr o ran cynnydd sgiliau Cymraeg dysgwyr, gan gynnwys mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. Byddai'n mynd yn groes i ethos y cwricwlwm newydd i ddarparu cynnwys rhagnodol nad yw wedi'i deilwra i anghenion lleol ac nad yw'n rhoi cyfle i athrawon ddefnyddio eu harbenigedd proffesiynol.

Serch hynny, rwy'n ymwybodol o'r heriau sy'n wynebu ysgolion. Ond rwy'n credu mai'r ffordd orau i gefnogi ysgolion yw canolbwyntio ar sut rydyn ni'n cefnogi pob rhan o'r system i gyflawni, yn hytrach na chanolbwyntio ar ddarparu canllawiau pellach, a allai orlethu a drysu'r sefyllfa.

I gefnogi'r gwaith o weithredu'r cwricwlwm, byddwn yn cyhoeddi cynllun cyflawni'r cwricwlwm, a fydd yn nodi ein disgwyliadau o ran gwireddu Cwricwlwm i Gymru a'r modd y bydd ysgolion, partneriaid strategol a Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at hynny; ac yn sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o ymarferwyr a rhanddeiliaid i rannu dealltwriaeth ar draws y proffesiwn, casglu gwybodaeth a chydlunio cymorth ac atebion i broblemau. Trwy'r mecanweithiau hyn byddwn yn cydweithio â phartneriaid i gefnogi ysgolion i ddatblygu cwricwla sy'n cefnogi cynnydd yn y Gymraeg, gan gynnwys sut y gellir cyflawni continwmm Cymraeg.


Byddwn hefyd yn ymgynghori ar drefniadau newydd sy'n ymwneud â chategoreiddio ysgolion yn ôl eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg cyn y Nadolig.

Amlygodd adolygiad o'r trefniadau presennol yr angen i wneud newidiadau. Nid yw'r amwysedd ynghylch categorïau ysgolion bellach yn cefnogi ymrwymïadau a wnaed yng Nghynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion ac i ymgymryd â'r broses statudol o newid dynodiad ysgol. Bydd sicrhau eglurder i'r trefniadau yn hwyluso'r broses hon fel y gall awdurdodau lleol gyrraedd y targedau a nodir yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Disgwyliwn i bob ysgol, beth bynnag fo'u categori, ddatblygu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ôl y cwricwlwm newydd. Er mai ysgolion unigol sy'n gyfrifol am gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm, dylid ei ystyried o fewn y polisi cyffredinol o dynodi ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Bydd y canllawiau drafft newydd ar gategoreiddio ysgolion yn ôl eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn helpu ysgolion i gyflawni nodau eu cwricwlwm o ran cyflwyno'r Gymraeg.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, reading "Kirsty Williams". The signature is written in a cursive style with a large initial 'K'.

Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education